Beibl i Blant
yn cyflwyno

# Jacob y Twyllwr



Awdur: Edward Hughes

Lluniau gan: M. Maillot; Lazarus

addaswyd gan: M. Kerr; Sarah S; Alastair Paterson

Cyfieithydd: Catrin Roberts

Cynhyrchwyd gan: Bible for Children
www.M1914.org
©2021 Bible for Children, Inc.
Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon, ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.


Ydy Duw
wedi rhoi babi
newydd i'ch
teulu chi?
Mae'n beth
cyffrous iawn!


Mae'n rhaid
bod Isaac
a Rebeca
yn teimlo
hapusrwydd
...


... dwbl - roedden nhw'n mynd i gael efeilliaid gan Dduw.

Fe wnaeth y babis wthio ei gilydd yng nghroth Rebeca.



Pan oedd
hi'n gweddio,
roedd Duw
yn dweud
wrthi fod ei
dau fab yn
mynd i arwain
dwy genedl -
a'r mab ieuengaf
fyddai'r pwysicaf.



Fel arfer y babi sy'n cael ei eni gyntaf sy bwysicaf. O'r diwedd cafodd y babis eu geni.



Doedd yr efeilliaid ddim yn debyg i'w gilydd. Roedd gan Esau, y bachgen hynaf, lot o wallt.



Tyfodd hwn i fod yn heliwr gwych. Croen llyfn oedd gan Jacob ac roedd e'n hoffi gweithio yn agos i'w gartref.



Roedd Isaac yn hoffi Esau fwyaf. Jacob oedd ffefryn Rebeca.



Un diwrnod, roedd Esau eisiau bwyd.
“Rho fwyd i mi,” gofynnodd i Jacob.



“Dim ond os wnei di werthu dy hawliau fel y mab hynaf i mi”, meddai Jacob.

Doedd dim ots gan Esau am addewidion Duw i'r plentyn hynaf.



Dyma fo'n taro bargen gyda Jacob. Jacob fyddai pen y teulu wedi i'w tad farw.



Un noson, siaradodd Duw gydag Isaac.



“Fi ydy Duw dy dad, Abraham. Rydw i gyda thi. Fe fyddai’n bendithio dy ddisgynyddion.“



Roedd Isaac yn addoli Duw, ond roedd ei fab Esau wedi priodi dwy wraig o lwyth yr Hethiaid ac roedden nhw'n poeni dim am Dduw.





Dechreuodd Isaac fynd yn hen. “Tyrd â phryd o gig ffres i mi,” meddai wrth Esau, “yna fe wna i dy fendithio di.”



Dyma'r fendith arbennig roedd tad yn ei rhoi i'r mab hynaf. Brysiodd Esau allan i hela.

Ond roedd Rebeca wedi clywed popeth. Roedd hi am i Jacob gael y fendith.





Roedd cynllun gan Rebeca. Dechreuodd goginio hoff fwyd Isaac. Gwisgodd Jacob ddillad Esau, a rhoi crwyn anifail ar ei ddwylo a'i wddf.



Doedd Isaac ddim yn gallu gweld yn dda iawn: efallai y bydden nhw'n gallu ei dwyllo.

Rhoddodd Jacob y bwyd i Isaac. "Mae dy lais yn debyg i lais Jacob," meddai Isaac, "ond mae dy ddwylo fel rhai Esau."



Ar ôl bwyta, penliniodd Jacob o'i flaen a chael ei fendithio.





Roedd Jacob newydd adael pan ddaeth Esau at Isaac. “Dyma dy fwyd,” meddai.



Sylweddolodd Isaac ei fod wedi cael ei dwyllo. “Fedra i ddim newid y fendith,” meddai.

Dechreuodd Esau gasáu Jacob - roedd am ei ladd.



Clywodd Rebeca
Esau yn bygwth
ei frawd.




Dywedodd "Dos i dŷ d'ewyrth nes bydd dy frawd wedi anghofio beth wnest ti."



Cytunodd Isaac y dylai Jacob chwilio am wraig ymhlith teulu ei fam. Felly symudodd Jacob i ffwrdd i fyw.

Y noson honno, arhosodd Jacob ar ochr ffordd i gysgu, a defnyddiodd garreg fel clustog.




Efallai bod e'n teimlo'n unig, ac yn ofnus. Ond doedd e ddim ar ben ei hun. Siaradodd Duw gydag e mewn breud-dwyd rhyfeddol.


"FI YDY'R
ARGLWYDD –
DUW ABRAHAM
DY DAID AC
ISAAC DY
DAD. DW I'N
MYND I
ROI'R
WLAD
YMA I
TI A
DY DDISG-
YNYDD-
ION.

BYDD
POBLOEDD Y
BYD I GYD
YN CAEL EU BENDITHIO TRWOT
TI A DY DDISGYNYDDION."



Deffrodd Jacob - roedd ganddo ofn.

Rhoddodd ewythr Jacob, Laban, groeso iddo. Syrthiodd Jacob mewn cariad gyda'i berthynas Rachel.



Cytunodd i weithio
i Laban am saith
mlynedd er mwyn
cael ei phriodi.



Ond ar noson y briodas, cafodd Jacob ei dwyllo gan Laban.



“Lea ydy hon, nid Rachel,” cwynodd Jacob. “Rwyt ti wedi fy nhwyllo.” “Atebodd Laban” Mae'n arferiad i'r ferch hynaf briodi o flaen yr ieuengaf.



"Cei di briodi Rachel hefyd, dim ond i ti weithio i mi am saith mlynedd arall."



Cytunodd Jacob i hyn - tybed oedd e'n cofio ei fod wedi twyllo Isaac ac Esau?



Cafodd Jacob un deg un o feibion.  Wrth i'r blynyddoedd basio roedd yn dyheu am fynd nôl i Ganaan hefo'i deulu.



Roedd ei rieni'n byw yno. Ond roedd Esau yno hefyd, ac roedd wedi gwneud llw y byddai'n lladd ei frawd.



Oedd hi'n ddiogel mynd yn ôl? Un diwrnod dywedodd Duw wrtho am fynd. Casglodd Jacob ei deulu a'i anifeiliaid a chychwyn am adre.




Am siwrne! Daeth Esau i gyfarfod Jacob gyda phedwar cant o ddynion!

Ond wnaeth e ddim brifo Jacob.



Rhedodd ato a rhoi ei freichiau amdano. Daeth Jacob ac Esau yn ffrindiau eto. Roedd Jacob adre'n ddiogel.



# Jacob y Twyllwr

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Genesis 25 - 33

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

# Y Diwedd

Mae'r stori hon o'r Beibl yn dysgu ni am ein Duw rhyfeddol. Fe wnaeth ein creu ni, ac mae eisiau i ni ei adnabod.

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Cosb pechod ydy marwolaeth, ond mae Duw yn dy garu di gymaint nes ei fod wedi anfon ei unig Fab, Iesu, i farw ar Groes, a chymryd y gosb am dy bechod di. Yna daeth Iesu'n ôl yn fyw a mynd adref i'r Nefoedd! Os wyt ti'n credu yn Iesu ac yn gofyn iddo faddau dy bechodau, mae'n barod i wneud hynny! Bydd yn dod i fyw ynot ti nawr, ac fe gei di fyw gydag E am byth.

Os wyt ti'n credu bod hyn yn wir, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Iesu, rwy'n credu i ti ddod yn ddyn i farw dros fy mhechodau, a dy fod ti'n fyw eto. Os gweli'n dda, tyrd i mewn i'm bywyd. Maddau fy mhechodau i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna un diwrnod bod hefo ti am byth. Helpa fi i fod yn ufudd i ti, a byw fel plentyn i ti. Amen.

Darllena'r Beibl, a siarad gyda Duw bob diwrnod! Ioan 3:16